

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Practis deintyddol Hendy-gwyn ar
Daf, Sir Gaerfyrddin
Dyddiad y gweithgarwch: 23 Medi
2022

Dyddiad cyhoeddi: 10 Tachwedd 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Practis Deintyddol Hendy-gwyn ar Daf yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a phreifat i gleifion yn Sir Gaerfyrddin yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae gwiriadau ansawdd yn ein galluogi i archwilio sut mae gwasanaethau'n bodloni'r safonau perthnasol mewn ffordd ystwyth, gan ein galluogi i ddarparu cyngor cyflym a chefnogol ar wella gweithredu gwasanaethau yn ddiogel. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 23 Medi 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

- Sut ydych chi'n sicrhau bod trefniadau priodol ar waith sy'n cynnal safonau atal a rheoli heintiau ac yn diogelu cleifion, staff ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth?
- Sut ydych chi'n sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sy'n galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau.
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion y cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod y practis yn cynnal ansawdd gofal cleifion a darpariaeth y gwasanaeth?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys polisi a gweithdrefn diogelwch tân. Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y newidiadau a wnaed i'r practis o ganlyniad i bandemig COVID-19. Cafodd yr ystafell ddihalogi ei hadleoli a'i gwahanu oddi wrth yr ardal glinigol, tynnwyd yr holl eitemau nad oeddent yn hanfodol o'r man aros a thynnwyd cadeiriau'r ystafelloedd aros a gosodwyd seddau finyl yn eu lle er mwyn eu glanhau'n haws. Roedd y ddwy ystafell driniaeth wedi'u tacluso a dim ond yr offer angenrheidiol ar gyfer pob triniaeth oedd ar ôl yn yr ystafell.

Dywedwyd wrthym fod un ystafell driniaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol¹ a'r ystafell driniaeth arall yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut roedd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol wedi'u cyfyngu i ganiatáu ar gyfer prosesau glanhau gwell a chyfnod segur² rhwng cleifion. Gosodwyd system awyru fecanyddol yn yr ystafell driniaeth ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol er mwyn hwyluso'r broses o gael gwared ar aer halogedig.

Dywedwyd wrthym nad oedd y newidiadau wedi effeithio ar allu'r practis i ddarparu gweithgareddau cofrestredig. Fodd bynnag, oherwydd mwy o amser glanhau a chyfnod segur, bu gostyngiad bach yn nifer y cleifion y gellid eu gweld yn ddiogel mewn sesiwn. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu dros archwiliadau arferol.

Roedd y cleifion yr oedd angen iddynt weld y deintydd yn cael eu gwahodd i ddod i'r practis drwy apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Esboniodd y rheolwr cofrestredig y gofynnir cyfres o gwestiynau i'r cleifion er mwyn penderfynu p'un a oeddent mewn perygl o drosglwyddo COVID-19 wrth gyrraedd eu hapwyntiad.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod un deintydd ac un o'r pedair nyrs ddeintyddol yn

¹ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

² Cyfnod segur yw'r amser mae ystafell driniaeth yn segur yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol, sy'n rhoi amser i unrhyw ddefnyddiau glirio cyn glanhau a dihalogi.

gallu siarad rhywfaint o Gymraeg â'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o wybodaeth a phosteri cleifion yn cael eu harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gwnaethom ofyn am hygyrchedd y practis a dywedwyd wrthym fod rampiau wedi'u gosod i alluogi mynediad cadeiriau olwyn i'r practis.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Ni chawsom asesiad risg amgylcheddol diweddar yn ystod y gwiriad ansawdd, dywedwyd wrthym fod amgylchedd y practis yn cael ei asesu o ran risg yn anffurfiol yn rheolaidd ac nid oedd hyn yn cael ei ddogfennu fel mater o drefn. Ers hynny rydym wedi derbyn asesiad risg amgylcheddol dyddiedig yn manylu ar risgiau a chamau gweithredu. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sefydlu rhaglen asesu risg amgylcheddol reolaidd gyda chynlluniau gweithredu dyddiedig, sy'n cael eu rhoi ar waith, eu diweddarau a'u hadolygu.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Copi o ddogfen archwilio'r Gymdeithas Atal Heintiau a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Y polisi COVID-19
- Gweithdrefnau glanhau â llaw
- Amserlenni glanhau'r practis ar gyfer yr wythnos ddiwethaf.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom rai dogfennau yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau cyn y gwiriad ansawdd. Roedd y rhain yn cynnwys manylion prosesau glanhau â llaw, protocolau glanhau a chofnodion ar gyfer dihalogi offer a chyfarpar deintyddol dros y pythefnos blaenorol.

Gwelwyd y ddogfen archwilio atal heintiau ddiweddaraf (archwiliad y Gymdeithas Atal Heintiau), dyddiedig Medi 2022. Roedd hyn yn cynnwys camau gweithredu a chynllun gweithredu dyddiedig ar gyfer gwneud gwelliannau.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg³ cyfarpar diogelu personol, wedi'i gyflwyno i'r staff a bod yr holl staff clinigol wedi cael prawf

³ Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

ffitio ar gyfer masgiau ac roedden yn gwisgo masgiau amddiffyn wyneb llawn (FFP3)⁴ a chyfarpar diogelu personol llawn. Cawsom wybod am y mesurau a roddwyd ar waith i sicrhau bod y staff yn hyderus ac yn gymwys i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod gwybodaeth atal a rheoli heintiau wedi'i diweddarau yn cael ei chyfleu i'r tîm trwy gyfarfodydd a bod ffeil ar gael hefyd i aelodau'r staff gyfeirio ati.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr o'r gwasanaeth ynghylch sut yr oeddent yn rheoli eu gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Gwnaethom ystyried p'un a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Yr adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Y datganiad o ddiben⁵
- Y daflen gwybodaeth i gleifion⁶
- Archwiliad o gardiau cofnod.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir, roedd y dogfennau hyn yn bodloni gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

⁴ Mae gan fasnau FFP3 y gallu hidlo uchaf o'r holl fasnau FFP sydd ar gael gan eu bod yn amddiffyn rhag gronynnau mân iawn.

Gallu Hidlo Bacteria masgiau FFP3 yw 99%.

⁵ Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 i'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae hyn yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Yn ogystal â hyn, dylai restru'r mathau o driniaeth, y cyfleusterau, a'r holl wasanaethau eraill a ddarperir yn y practis deintyddol preifat, neu at ddibenion y practis, gan gynnwys manylion ynglŷn â'r ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.

⁶ Mae'r daflen gwybodaeth i gleifion yn cael ei rhoi i gleifion ac yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod.

Gwelsom gopi o'r adroddiad blynyddol, a baratowyd yn unol â Rheoliad 16 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y broses sydd ar waith ar gyfer adrodd am unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi a'u trafod ar yr un diwrnod ac yna'n cael eu hadrodd i AGIC ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol.

Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn defnyddio staff asiantaeth a bod y tîm staff sefydledig yn gweithio'n hyblyg i gyflenwi yn ystod absenoldebau er mwyn sicrhau parhad gofal deintyddol i gleifion. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod trefniadau parhad busnes ar waith gyda phractisau eraill mewn argyfwng. Cawsom y cynllun parhad busnes a oedd yn disgrifio'r trefniadau pe bai achos o darfu.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddi, a oedd yn dangos cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol gan gynnwys hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd wyneb yn wyneb diweddar ar gyfer yr holl staff. Eglurodd y rheolwr cofrestredig y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol, ac roedd staff yn parhau i ddefnyddio pecynnau hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym fod offer a meddyginiaethau brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd y dystiolaeth ategol yn dangos bod y gwaith o wirio offer brys yn cael ei gofnodi'n anghyson a bod cyfnodau gwirio bob tair wythnos yn hytrach na bob wythnos. Mae methu cwblhau a dogfennu gwiriadau wythnosol yn golygu nad yw AGIC yn cael sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod yr offer meddygol a'r feddyginiaeth angenrheidiol ar gyfer argyfyngau meddygol ar gael ac yn barod i'w defnyddio, pe bai angen. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau wythnosol rheolaidd yn cael eu cynnal ar yr offer a'r feddyginiaeth frys a'u bod yn cael eu dogfennu.

Rhoddyd copïau o amrywiol bolisiau a gweithdrefnau i ni. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd dyddiad na llofnod ar nifer o'r dogfennau hyn neu nad oeddent yn cynnwys dyddiad adolygu. Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau yn y practis wedi'u llofnodi a'u dyddio, gan gynnwys dyddiad adolygu, er mwyn sicrhau bod y polisiau'n gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Cynllun gwella ar unwaith

Lleoliad: Practis deintyddol Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin

Dyddiad y gweithgarwch: 23 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen unrhyw welliannau ar unwaith.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad: Practis deintyddol Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin

Dyddiad y gweithgarwch: 23 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sefydlu rhaglen asesu risg amgylcheddol reolaidd gyda chynlluniau gweithredu dyddiedig, sy'n cael eu rhoi ar waith, eu diweddarau a'u hadolygu.	Rheoliad 22(2)(a)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Yn ogystal â'r gwaith arsylwi parhaus o ddydd i ddydd ar safle'r practis gan y prif ddeintydd, bydd y rhaglen asesu risg ysgrifenedig yn cael ei diweddarau'n rheolaidd bob blwyddyn, neu pan fydd newidiadau sylweddol yn digwydd i amgylchedd y practis. Mae'r dyddiadur ymarfer wedi'i ddiwygio i sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gynnal mewn da bryd.	Geoffrey Rees Rheolwr y Practis	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i roi ar waith.
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau wythnosol	Rheoliad 8(1)(d) a 13(2)(a) o	Cynyddwyd amllder y gwiriadau i'w cynnal yn wythnosol, mae dyddiadur y practis	Geoffrey Rees	Mae'r newid i'r drefn o wirio cyffuriau ac offer

<p>rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfarpar a meddyginiaethau brys a'u bod yn cael eu dogfennu.</p>	<p>Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>wedi'i ddiwygio i ddangos y newid i'r rhestr "pethau i'w gwneud". Pwysleisiwyd pwysigrwydd cofnodi dyddiad pob arolygiad i'r staff sy'n gyfrifol am gynnal y gwiriad.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>brys wedi'i roi ar waith.</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau yn y practis wedi'u llofnodi a'u dyddio, gan gynnwys dyddiad adolygu, er mwyn sicrhau bod y polisiâu'n gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.</p>	<p>Rheoliad 8(6) o Adran Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Bydd adolygiad o bolisiau'r practis yn cael ei gynnal a bydd pob polisi'n cael ei wirio i sicrhau eu bod yn gyfredol, wedi'u llofnodi gan aelodau'r staff i sicrhau eu bod wedi'u darllen a'u deall, a'u nodi â dyddiad ar gyfer eu hadolygu.</p> <p>Er mwyn cynorthwyo'r broses hon, bydd mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r feddalwedd gyfrifiadurol i-comply y mae'r practis eisoes wedi buddsoddi ynddi.</p>	<p>Geoffrey Rees Rheolwr y Practis</p>	<p>Bydd y broses hon yn cael ei rhoi ar waith ar unwaith, fodd bynnag mae'r broses yn gymhleth a byddaf yn anelu at ei chwblhau o fewn tri mis.</p>

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): **Geoffrey Rees**

Swydd: **Prif ddeintydd / rheolwr cofrestredig**

Dyddiad: **17/10/2022**